| | |
|---|---|
| **1CYFARFOD** | **Cabinet Cyngor Gwynedd** |
| **DYDDIAD** | **26 Ionawr 2021** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |
| **SWYDDOG** | **Gwern ap Rhisiart** |
| **TEITL YR EITEM** | **Ysgol newydd yng Nghricieth** |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol a'r ymateb i'r sylwadau hynny, a phenderfynu os dylid:

Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle amgen, cyfeirir ato fel safle A497 ar 1 Medi 2023 yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

*2.1.* Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd i'r Cabinet yn dilyn cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle amgen, cyfeirir ato fel safle A497, ar 1 Medi 2023.

## 3. CYFLWYNIAD

*3.1.* Yn ei gyfarfod ar 2 Ebrill 2019, bu i'r Cabinet gymeradwyo'r hawl i gychwyn trafodaethau lleol er mwyn adnabod opsiynau ar gyfer adeiladu ysgol gynradd newydd yng Nghricieth fel canlyniad i gyflwr gwael adeiladau presennol Ysgol Treferthyr.

*3.2* Adnabuwyd yr angen i wella darpariaeth gynradd yng Nghricieth ar y sail fod cyflwr adeiladau Ysgol Treferthyr wedi eu rhoi yng nghategori C-. Golygai hyn fod nifer o ddiffygion yng nghyflwr adeiladau yr ysgol fel ei bod yn aneconomaidd parhau i geisio cynnal yr adeiladau i'r dyfodol. Yn ôl yn 2011, bu gwariant o oddeutu £500,000 er mwyn ceisio ymestyn oes yr adeiladau am gyfnod oddeutu 5 mlynedd. Bellach, mae arolygon yn dangos fod effaith y gwaith dros dro yma yn dirwyn i ben.

*3.3* Wrth gyflwyno cais 'Strategol Amlinellol Rhaglen' am arian o'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif (Band B) i Lywodraeth Cymru yn 2017, clustnodwyd cyllideb o £4.97m ar gyfer adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth fel rhan o raglen cyfalaf gwerth £56.14m gyda chyfraniad o £37.46m gan Llywodraeth Cymru a £18.68m o arian cyfatebol gan Gyngor Gwynedd.

## 4. CEFNDIR – Datblygu'r opsiwn ffafriedig

*4.1.* Sefydlwyd Panel Adolygu Lleol ym Mehefin 2019 a chynhaliwyd 4 cyfarfod rhwng Mehefin 2019 a Mehefin 2020, gyda'r olaf ar 24 Mehefin 2020. Roedd cynrychiolwyr o'r Corff Llywodraethol yn aelodau o'r panel yn ogystal â phennaeth Ysgol Treferthyr, Cadeirydd y Corff Llywodraethol a'r Aelod Lleol. Yn ystod y cyfarfodydd trafodwyd nifer o safleoedd posib ar gyfer lleoli'r ysgol newydd gan gynnwys y safle presennol ynghyd â

lleoliadau eraill a oedd wedi eu hadnabod ar y cyd gyda'r Corff Llywodraethol. Yn dilyn gwerthusiad o'r safleoedd, bu i'r Panel gytuno ar Safle A497 fel y safle ffafredig.

*4.2.* Wrth ystyried y rhestr hir o opsiynau safleoedd rhoddwyd sylw i'r gofynion canlynol:

- Maint safle
- Ystyriaethau cynllunio
- Ystyriaethau mynediad a traffig
- Ystyriaethau technegol
- Effaith ar gostau datblygu

*4.3.* Diystyrwyd 8 opsiwn oherwydd nad oeddent yn cyfarch rhai o'r gofynion yma yn ddigonol. Roedd hyn yn cynnwys y safle presennol oherwydd nad oedd ddigon mawr ar gyfer datblygu ysgol newydd a chapasiti o 150 ac ystyriaethau mynediad i'r safle.

4.4 Yn dilyn hyn rhodiwyd ystyriaeth pellach i restr fer o 4 opsiwn. Yn dilyn gwaith ar yr opsiynau hyn a chyfarfodydd pellach o'r Panel Adolygu Lleol cytunwyd ar opsiwn ffafredig yng nghyfarfod 24 Mehefin 2020. Yr opsiwn ffafredig hwn oedd i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 ac adleoli yr ysgol i safle A497.

4.5 Yn ei gyfarfod ar 13 Hydref 2020, bu i'r Cabinet gymeradwyo cynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 ac adleoli yr ysgol i safle amgen, cyfeirir ato fel safle A497, ar 1 Medi 2023, gan adrodd yn ôl i Gabinet yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad.

## 5. Cynyddu cyllideb cyfalaf y prosiect

5.1 Yn dilyn derbyn cymeradwyaeth y Cabinet ar 13 Hydref 2020, a gwneud gwaith cynllunio pellach ar y safle ffafredig, adnabuwyd yr angen am gynyddu cyllideb y prosiect er mwyn cyfarch gwaith a chostau ychwanegol. Roedd y cais gwreiddiol i Llywodraeth Cymru yn gofyn am gyfraniad tuag at swm cyfalaf o tua £4.97m o gronfa Ysgolion 21ain Ganrif ar gyfer y prosiect hwn, gyda £3.23m yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd yn cyfrannu £1.74m. Yn dilyn trafodaethau prynu tir pellach, addasiadau i'r ffordd a chynllunio'r ysgol mae costau ychwanegol wedi eu hadnabod sy'n golygu y bydd angen cynyddu cyllideb y prosiect os am wireddu'r gwaith ychwanegol yma. Yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2020, bu i'r Cabinet gymeradwyo i symud £380,000 o fewn Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif er mwyn cynyddu'r gyllideb ar gyfer y prosiect i adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth i tua £5.35m. Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet mae cais wedi ei gyflwyno i Llywodraeth Cymru am ei cymeradwyaeth i drosglwyddo'r cyllid o fewn Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif Cyngor Gwynedd.

*5.2.* Penderfynodd y Cabinet hefyd i danysgrifennu'r swm cyfalaf o £220,000 er mwyn sicrhau darpariaeth blynyddoedd cynnar fel rhan o'r ysgol newydd yng Nghricieth pe na bai unrhyw ffynhonnell gyllidol arall ar gael gan Lywodraeth Cymru fyddai'n cyd-fynd gydag amserlen y prosiect.

## 6. YR YMGYNGHORIAD STATUDOL

*6.1.* Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 6 Tachwedd 2020 a 18 Rhagfyr 2020.

*6.2.* Lluniwyd dogfen ymgynghori statudol (**Atodiad A**) yn unol â gofynion ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) a dosbarthwyd copi o'r ddogfen i'r holl ymgynghorai perthnasol. Gan fod y cyfnod

ymgynghori yn digwydd yng nghanol cyfnod Covid-19 addaswyd y trefniadau arferol o rannu'r ddogfen ar ffurf copïau caled gyda rhieni, staff a'r corff llywodraethol. Oherwydd risgiau o drosglwyddo'r haint rhannwyd y ddogfen ar ffurf PDF drwy e-bost yn hytrach. Pe tai rhywun yn dymuno roedd copïau caled ar gael ar gais i'r Swyddfa Moderneiddio Addysg. Hefyd, roedd modd cael mynediad at yr holl ddogfennau perthnasol gan gynnwys y ddogfen ymgynghori a pecyn cefndirol, oedd yn cynnwys asesiadau effaith ar yr iaith, y gymuned, cydraddoldeb ac asesiad yn erbyn nodau'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ar wefan y cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg).

*6.3.* Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 nid oedd modd cynnal sesiynau ymgynghori wyneb yn wyneb, yn hytrach cynigwyd gyfle i bobl/ymgynghorai gyflwyno cwestiynau er mwyn cael eglurder ar unrhyw fater yn ymwneud â'r ymgynghoriad drwy anfon e-bost at moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru neu cysylltu drwy ffonio 01286 679640.

*6.4.* Yn ogystal, crëwyd dogfen ymgynghorol addas i blant cynradd gyda holiaduron cysylltiedig. Trefnwyd fod pennaeth Ysgol Treferthyr yn hwyluso'r sesiynau gyda disgyblion yr ysgol gan nad oedd modd trefnu i hwylusydd allanol ymweld â'r ysgol yn ystod cyfnod Covid-19. Mae dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau wedi ei gynnwys yn **Atodiad C.**

*6.5.* Derbyniwyd 10 ymateb i'r ymgynghoriad statudol gan y cyhoedd, Cyngor Tref, llywodraethwyr, rhieni ac Estyn ynghyd a 78 o ymatebion gan disgyblion.

## 7. SYLWADAU A DDERBYNIWYD YN YSTOD YR YMGYNGHORI STATUDOL

*7.1.* Mae'r adran hon yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Ceir copi o dabl sy'n cynnwys yr holl sylwadau yn ogystal ag ymateb y Cyngor yn **Atodiad B**. Yn bennaf roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn manylu ar y materion a ganlyn -

- Cefnogaeth i'r cynnig
- Defnydd cymunedol o'r ysgol newydd a'i chyfleusterau
- Capasiti'r ysgol newydd
- Lleoliad yr ysgol newydd a materion traffig/trafnidiaeth
- Sylwadau Estyn

### *7.2* Cefnogaeth i'r cynnig

*7.2.1.* Derbyniwyd sylwadau sydd yn croesawu'r buddsoddiad hwn i dref Cricieth. Yn benodol mynegwyd sylwadau yn gefnogol i adeilad newydd ar gyfer Ysgol Treferthyr, megis: *"Rwyf yn hapus iawn gyda'r newyddion am yr ysgol newydd. Bydd yn wych i'r staff, y plant ac yn ased i'r gymuned."* Nodwyd hefyd y byddai adeilad newydd yn cwrdd â gofynion addysgol yn yr unfed ganrif ar hugain.
Mae'r Cyngor yn croesawu y sylwadau hyn ac o'r farn y byddai ysgol newydd fodern sy'n cwrdd â gofynion addysg a dysgu yn y 21ain Ganrif yn cyfoethogi profiadau holl ran-ddeiliaid Ysgol Treferthyr ynghyd a'r gymuned yn ehangach.

### *7.3.* Defnydd cymunedol o'r ysgol newydd a'i chyfleusterau

*7.3.1.* Mae nifer o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol yn nodi dymuniad i weld defnydd cymunedol yn cael ei wneud o adnoddau'r ysgol newydd gan roi ystyriaeth i gynnwys y caeau chwarae.

Mae'r Cyngor o'r farn fod creu ysgol newydd gyda chyfleusterau modern yn gyfle i'r ysgol gydweithio â'r gymuned er mwyn annog defnydd amgen o'r cyfleusterau.

***7.4.*** **Capasiti'r ysgol newydd**

*7.4.1.* Mewn un ymateb gofynnwyd y cwestiwn *"pam mai 150 fydd capasiti yr ysgol newydd gan fod hanes yn dangos fod plant yn dychwelyd i ysgol y dalgylch pan ddaw ysgol newydd.*"

Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori dengys ffigyrau cyfrifiad Medi 2020 fod 117 o ddisgyblion (dosbarth meithrin i flwyddyn 6) yn yr ysgol a bod 29 plentyn o'r dalgylch yn mynychu ysgolion eraill. Wrth gydnabod gwersi o brosiectau blaenorol mae'r Cyngor o'r farn fod rhaid i gynlluniau adeiladu ysgolion fod ar sail yr holl blant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol bresennol yn hytrach na'r niferoedd sy'n mynychu'r ysgol ar y pryd

*7.4.2.* Gan ystyried fod 29 plentyn yn mynd all-dalgylch yn Medi 2020, a chymryd fod posibilrwydd na fydd hyn yn digwydd unwaith fydd ysgol newydd yn agor, rhagdybir y bydd cynnydd yn y niferoedd o 2023 ymlaen. Oherwydd hyn mae'n fwriad i adeiladu'r ysgol newydd i gynnwys 5 dosbarth i greu capasiti o 150 ar gyfer plant oedran blwyddyn derbyn i flwyddyn 6 a dosbarth meithrin. Mae'r Cyngor o'r farn y bydd hyn yn creu digon o le ar gyfer holl blant oed cynradd y dalgylch pan fydd yr ysgol newydd yn agor.

**7.5. Lleoliad yr ysgol newydd a materion traffig/trafnidiaeth**

*7.5.1.* Ar y cyfan mae'r ymatebion i leoliad newydd yr ysgol a gyfeirir ato fel Safle A497 yn gadarnhaol gyda sylwadau megis: *"Dwi yn llwyr gefnogol o'r cynlluniau datblygu a dewis o safle A497"* yn cael eu cyflwyno a "*Diolch i chi am fanylu ar y gwaith a wnaed i sicrhau safle a fydd yn ôl pob golwg yn un hwylus a braf ar gyfer pawb."*

*7.5.2.* Derbyniwyd un sylw oedd yn gofyn pam nad yw'r ysgol yn cael ei hadeiladu yn agosach at gartrefi'r plant sy'n mynychu'r ysgol.

Mewn ymateb i hyn bu'r broses o ddewis y safle arfaethedig yn broses fanwl ble ystyriwyd 11 safle i gyd. Cynhaliwyd ymchwiliadau manwl a thrafodaethau a pherchnogion safleoedd sydd yn agosach i gartrefi mwyafrif y plant a daethpwyd i ganlyniad, oherwydd amryw o resymau, nad oeddynt yn ymarferol nac yn addas ar gyfer datblygiad o'r fath.

*7.5.3.* Derbyniwyd sylwadau sydd yn pryderu am faterion traffig ar y ffordd A497 gan nodi fod y ffordd yn brysur.

Mewn ymateb, mae arolwg traffig wedi'i gynnal yn ystod yr Hydref 2020, gydag astudiaeth o'r rhwydwaith ffyrdd a cherddwyr ar ochr orllewinol Cricieth. Bydd cyfyngiadau cyflymder yn cael eu hymestyn i'r gorllewin o'r safle i ddarparu clustogfa ble mae'r cyflymder yn cael ei ostwng yn raddol o 60mya i 40mya i 30mya i 20mya. Bydd lôn droi ac ynys bwrpasol yn hwyluso'r troad i'r dde i mewn i'r safle. Wrth adael y safle bydd yn bosibl troi i'r chwith ac i'r dde.

*7.5.4.* Mewn un ymateb nodwyd bwysigrwydd gwneud y daith i'r ysgol mor ddiogel â phosib gan y bydd rhai yn dewis cerdded i'r ysgol yn ogystal â theithio mewn car.

Er mwyn lliniaru'r pryderon hyn bwriedir gosod ffens fydd yn gwahanu'r palmant newydd oddi wrth y ffordd fawr a bydd y ffens yn mynd o'r fynedfa i Lôn Fel (de) i fynedfa'r ysgol. Rydym wedi edrych ar Lôn Fel i'r gogledd o'r A497 a byddwn yn cynghori rhieni'n gryf na ddylid defnyddio'r llwybr hwn a dylid defnyddio ffordd amgen i gyrraedd yr ysgol.

*7.5.5.* Awgrymwyd mewn un sylw y dylid cau'r gilfan ar y ffordd A497 oherwydd rhesymau diogelwch.

Gwnaethpwyd astudiaeth o'r ffordd a'r traffig a chafwyd trafodaethau gyda'r Adran Priffyrdd. Nid oedd yr Adran Priffyrdd yn fodlon cau'r gilfan oherwydd ei fod yn leoliad strategol ar gyfer loriau sydd yn cludo carafanau mawr/adeiladau ac y byddant yn defnyddio'r gilfan er mwyn aros am gerbydau hebrwng. Defnyddir y gilfan hefyd ar gyfer loriau HGV gael gorffwys yn ôl rheolaeth amser gyrru. Nid oes bwriad i gael adwy na llwybr cerdded rhwng y gilfan a'r ysgol newydd er mwyn osgoi i ddefnyddwyr yr ysgol ystyried yr

ardal fel man gollwng plant. Bydd cyfyngiadau cyflymder yn ymestyn i orllewin yr ysgol, gyda lôn benodol ac ynys traffig i hwyluso'r troad i'r dde i mewn i'r safle. Cafwyd cyngor gan Adran Datblygu Priffyrdd Cyngor Gwynedd nad yw'r meini prawf yn cael ei gyfarch er mwyn cael cylchdro ar y ffordd.

*7*.5.6 Mynegodd sylw arall bryder am groesi'r bont o gyfeiriad y môr gan fod y lôn yn gul â llif cymedrol o draffig, a dim ond un car ar y tro sy'n medru teithio ar hyd iddi.

Bwriedir osod arwyddion newydd, marciau ar y lôn a system o flaenoriaeth clir ar y bont rheilffordd er mwyn rhybuddio gyrwyr a diogelu cerddwyr ar Lon Fel.

*7*.5.7 Roedd sylw arall yn mynegi pryder am y coed ar safle a llygredd golau.

Mae na nifer o'r coed ger Lôn Fel wedi marw ac mewn cyflwr peryglus ond does dim bwriad gwaredu'r holl goed. Bydd gwaith torri a thocio i sicrhau diogelwch y goedwig ac i blannu coed os oes angen. Mae ecolegwyr yn gweithio ar y prosiect.

Bydd sylw yn cael ei roi i'r golau o'r adeilad a bydd y goleuo i gyd o fewn canllawiau cynllunio.

**7.6. Ymatebion i'r ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc**

*7.6.1.* Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gyda phlant yn Ysgol Treferthyr o dan arweiniad y pennaeth ac aelodau staff yr ysgol. Cyflwynwyd 78 o holiaduron i'r Adran Addysg yn dilyn cwblhau'r sesiwn ymgynghori a dyma'r prif ganfyddiadau sy'n deillio o'r ymatebion gan y plant –

- Nododd 58 eu bod yn hapus i gael ysgol fwy ei maint. Mae nifer helaeth yn nodi eu bod yn dymuno cael mwy o le yn y dosbarthiadau a thu allan ar gyfer chwarae.
- Cafwyd sylwadau yn gofyn beth os nad oes modd cerdded i'r ysgol newydd.
- Mae pellter teithio i'r safle newydd yn rywbeth mae'r plant yn ymwybodol ohono. Gyda sylwadau megis 'bell o ty fi' a 'mae'n daith car pell' yn cael eu nodi ganddynt.
- Mae'r plant yn gofyn am ddodrefn ac offer newydd yn gyson yn yr ymatebion. Pethau megis *chromebooks*, toiledau, sinc yn y dosbarth, *bean bags*, cae chwarae mawr a llyfrgell yn yr ysgol newydd.
- Mae'r plant yn hapus i gynyddu maint yr ysgol newydd a symud i leoliad newydd. 6 disgybl yn unig allan o 78 sydd wedi nodi nad ydynt yn hapus i symud i leoliad newydd yng Nghricieth.

*7.6.2.* Gellir dod i gasgliad yn dilyn dadansoddi'r ymatebion a gafwyd gan ddisgyblion Ysgol Treferthyr fod y plant ar y cyfan yn hapus i gael ysgol fwy. Pan yn edrych ar yr ymatebion i symud yr ysgol i leoliad newydd mae'r plant yn ymwybodol fod oblygiadau i'w trefniadau teithio presennol. Mae'r Adran Addysg wedi cyflwyno holiadur Arolwg Teithio i'r ysgol ar gyfer ei gwblhau gan y disgyblion a'u rhieni a bydd y canlyniadau yn cael eu defnyddio i osod amcanion y Cynllun Teithio Ysgol. Bydd yr arolwg hefyd yn edrych ar ffyrdd y gellir annog teithio cynaliadwy i'r ysgol.

*7.6.3*. Fel canlyniad i'r broses ymgynghori efo plant a phobl ifanc mae'r Adran Addysg yn gefnogol iawn i gynnwys mewnbwn llawn holl ran-ddeiliaid Ysgol Treferthyr yn ystod y broses o gynllunio'r ysgol newydd gyda'r Adran Datblygu Eiddo a'r Penseiri sydd yn dylunio'r ysgol newydd.

**7.7 Estyn**

*7.7.1.* Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn ei wneud yn ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fel corff yr ymgynghorir ag ef, mae Estyn yn rhoi eu barn ar yr ymgynghoriad. Mae'r ymateb llawn gan Estyn i'w weld yn **Atodiad B**.

*7.7.2.* Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, bu i Estyn nodi:
*"Mae'r cynnig yn gyson ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Gwynedd yn ogystal â'i strategaeth Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd."*

*"Mae'r Cyngor wedi ystyried ystod o opsiynau'n briodol ac wedi dewis y cynnig uchod."*

*7.7.3.* Mewn ymateb i'r cynnig ar sail cyflwr yr ysgol bresennol mae Estyn yn nodi:

*"Mae'n cyfeirio'n berthnasol at ganlyniadau o'r arolwg addasrwydd diweddar a nodwyd bod cyflwr yr ysgol bresennol yn wael iawn a bod yr adeiladau yn amharu'n sylweddol ar allu'r staff i ddarparu'r cwricwlwm. Mae'n datgan yn ddiamwys nid yw'r adeilad gwreiddiol na'r estyniad aml-lawr/caban yn gymorth i staff yr ysgol gynnig addysg i'r safon ddisgwyliedig. Mae'n honni'n bendant bod yr ysgol bellach y tu hwnt i'r sefyllfa ble ellir ei gynnal a chadw."*

*7.7.4.* Wrth ystyried yr effaith ar gynyddu capasiti'r ysgol i 150 nodir Estyn:

*"Mae'r cynigiwr yn datgan yn nerthol bydd yr ysgol newydd yn cynnig cyfleusterau cynradd i'r maint a safon ddisgwyliedig ar gyfer yr 21ain ganrif gyda chapasiti ar gyfer 150 disgybl. Golyga hyn y bydd modd darparu 6 dosbarth gyda mynediad i'r tu allan, neuadd, cegin ac ystafell aml-bwrpas a llyfrgell a hyn oll ar un llawr a fydd yn hwyluso hygyrchedd a mynediad i bawb. Gan gynyddu capasiti'r ysgol i 150 , ac wrth ystyried bod capasiti presennol yn 119, bydd cynnydd o 25% i'r capasiti er mwyn sicrhau digon o leoedd ar gyfer y nifer presennol a rhai o'r dalgylch fydd efallai yn mynychu'r ysgol ar y safle newydd. Mae'r cynigiwr yn seilio hyn yn ddilys ar ragamcanion niferoedd disgyblion.*

## 8. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

*8.1.* Cynhaliwyd asesiad Llesiant ar yr opsiynau gan ystyried amcanion lles Cyngor Gwynedd.

*8.2.* Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion y Sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddwn yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".

*8.3.* Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol a gofynion y ddeddf llesiant, deuir i gasgliad fod y cynnig yn bodloni 7 nod llesiant y Ddeddf, ynghyd ag amcanion llesiant y cyngor. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, ac hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol. Bydd y cynnig arfaethedig yn golygu bydd plant y dalgylch yn cael eu haddysgu mewn ysgol newydd gydag adnoddau fydd yn addas i'r 21ain Ganrif. Rhagwelir y bydd yr adnodd yma yn golygu gwell addysg i plant y dalgylch a gwell adnoddau at ddefnydd y gymuned ehangach. (mae copi o'r asesiad wedi ei gynnwys yn **Atodiad D**).

## 9. CYDRADDOLDEB

*9.1.* Mae polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai yn sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd ag hawliau cyfartal.

*9.2.* Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb ar yr opsiwn i symud ysgol Treferthyr a chynyddu ei chapasiti, sydd yn rhoi sylw i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae copi o'r asesiad yn **Atodiad DD**.

*9.3.* Rhagwelir y byddai adeiladu ysgol newydd yn cryfhau agweddau cydraddoldeb oherwydd y byddai'n fwy addas ar gyfer addysgu pob plentyn, yn enwedig y rhai ac anableddau, drwy ddilyn canllawiau adeiladu ysgolion modern.

*9.4.* Bu i'r asesiad cydraddoldeb ddod i ganlyniad na fyddai adleoli Ysgol Treferthyr i safle newydd A497 yn effeithio ar gydraddoldeb, boed yn nodweddion neu ddyletswydd cyffredinol.

## 10. CASGLIAD

*10.1.* Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol gadarn drwy'r ymgynghoriad i'r cynnig o gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle amgen, cyfeirir ato fel safle A497, ar 1 Medi 2023.

*10.2.* Yn dilyn ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ystyrir fod y cynnig ymgynghorwyd arno yn parhau i gynnig yr opsiwn orau ar gyfer dyfodol addysg dalgylch Cricieth. Mae dadansoddiad o'r sylwadau a dderbyniwyd yn cael sylw yn Adran 7 ac **Atodiad B**.

*10.*3 Argymhellir felly cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle amgen, cyfeirir ato fel safle A497 ar 1 Medi 2023 yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

## 11. CAMAU NESAF

*11.1.* Os bydd y Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn – bydd angen cyhoeddi rhybudd statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

*11.2.* Byddai'r rhybuddion statudol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o pan gyhoeddir y rhybuddion. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.

*11.3.* Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad terfynol.

*11.4.* Yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol;

| | |
|---|---|
| **Chwefror 2021** | **Cyhoeddi Rhybudd Statudol:** Os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen a'r cynnig, cyhoeddir hysbysiad statudol ac fe gynhelir cyfnod gwrthwynebu. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad o fewn y cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod. |
| **Mai 2021** | **Cabinet:** Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad a'r gwrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r cynnig ai peidio. |
| **Mehefin 2021** | **Cyfeirio'r penderfyniad i Weinidogion Cymru:** Yn unol ag adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet, gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i'w benderfynu:<br>i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;<br>ii. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;<br>iii. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;<br>iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;<br>**v.** Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni. |
| **Mehefin 2021 – Mehefin 2023** | Prynu tir, cais cynllunio, adeiladu, dodrefnu. |
| **1 Medi 2023** | **Gweithredu'r cynnig:** Ysgol Treferthyr yn symud i safle newydd, yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet. |

## 12. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**
Mae'r Adran Gyfreithiol wedi cynghori ar yr adroddiad. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Fel mae rhan 5 o'r adroddiad yn nodi, mae'r Cabinet eisoes wedi darparu ar gyfer ariannu'r cynllun. Yn dilyn yr ymgynghori priodol, rwy'n cefnogi'r argymhelliad i ryddhau'r rhybudd statudol.

**Yr Aelod Lleol:**
Mae'n galonogol iawn i gael clywed sylwadau mor bositif gan y plant. Mae'n edrych fel petai cryn dipyn o gynnwrf ymysg y disgyblion am gael ysgol sydd yn llawer mwy addas na'r ysgol bresennol.

Sylwaf fod dipyn o nerfusrwydd am y lleoliad yn benodol oherwydd materion traffig ac hyderaf fydd y mater yn cael sylw wrth ddatblygu cynlluniau terfynol yr ysgol.

Braf i glywed fod na gefnogaeth i'r datblygiad a ga'i ymestyn diolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o yrru y prosiect i'r pwynt yma.

**Atodiadau:**

**Atodiad A:** Dogfen ymgynghori

**Atodiad B:** Dadansoddiad o ymatebion yr Ymgynghoriad

**Atodiad C:** Ymgynghoriad Plant a phobl ifanc

**Atodiad Ch:** Ymatebion unigol

**Atodiad D:** Asesiadau Effaith:

- Asesiad Effaith ar y Gymuned
- Asesiad Effaith Ieithyddol
- Asesiad Llesiant
- Asesiad Cydraddoldeb